## Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# Protocol Amlasiantaeth ar gyfer Llifogydd yn Ochr y Gamlas

# (Aberdulais, Castell-nedd)

**Sicrhewch fod manylion cyswllt eich sefydliad ar y Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd yn gywir ac yn gyfredol - bydd hyn yn sicrhau eich bod yn derbyn Rhybuddion Llifogydd yn ôl yr angen, gan roi amser i'ch asiantaeth ymateb i achosion o lifogydd.**

**Gallwch wirio bod manylion cyswllt eich sefydliad yn gywir drwy ffonio'r Llinell Llifogydd ar 0345 988 1188**

| | |
|---|---|
| **PARATOWYD GAN:** | Y Tîm Cynllunio rhag Argyfyngau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Cei, Brunel Way, Parc Ynni Baglan, Castell-nedd SA11 2GG |
| **CYFEIRNOD:** | EP/PT/01 |
| **FERSIWN:** | 11.0 |
| **DYDDIAD:** | Medi 2020 |
| **STATWS:** | **SENSITIF SWYDDOGOL** |

www.npt.gov.uk
www.jointresilience.co.uk

## RHESTR DDOSBARTHU

| Enw: | Sefydliad: | Dull cyhoeddi: |
|---|---|---|
| [redacted] | | |

**** Anfonwch y protocol hwn ymlaen yn ôl yr angen o fewn eich sefydliad eich hun ****

Oherwydd natur sensitif yr wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen hon, ni fydd y fersiwn hon ar gael i'r cyhoedd. Dylid cyfeirio ceisiadau am gopïau o'r ddogfen hon y gellir eu rhyddhau i'r cyhoedd i'r cyfeiriad ar y dudalen glawr neu at ept@npt.gov.uk

Os oes angen fersiwn Gymraeg o'r ddogfen hon arnoch, gofynnwch am gopi drwy e-bostio: ept@npt.gov.uk

Mae'r cynllun hwn ar gael yn **Resilience Direct** yn:

[redacted]

Mae'r cynllun hwn ar gael ar **System Dragon 2 CBSCNPT** yn:

[redacted]

## COFNOD O NEWIDIADAU

| **Dyddiad:** | Statws (drafft, terfynol, awdurdodedig ac ati): | Manylion y newidiadau: | **Rheswm dros y newid**: |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr 2018 | Terfynol | Adolygiad amlasiantaeth oherwydd digwyddiad arwyddocaol. Diweddarwyd pob tudalen. | Adolygiad ar ôl y digwyddiad |
| Awst 2019 | Terfynol | Cynllun wedi'i ailfformatio gydag arddull CNPT newydd. Cynnwys rhif RhDH a manylion cyswllt Dŵr Cymru. Cam gweithredu ar gyfer Priffyrdd wedi'i ychwanegu. | Adolygiad Blynyddol |
| Medi 2020 | Terfynol | Adolygiad amlasiantaeth oherwydd digwyddiad arwyddocaol/yn barod ar gyfer yr hydref/gaeaf 2020/21. Newidiadau wedi'u gwneud i gamau gweithredu sy'n ymwneud â thelegynhadledd amlasiantaeth, hysbysiad gan HDC a Gwasanaeth Tân ac Achub CGC o bresenoldeb ar y safle, diweddariad i'r asiantaeth sy'n flaenllaw yn y digwyddiad, a pha gyfeiriadau 3 gair a ychwanegwyd. | Adolygiad ar ôl y digwyddiad/Adolygiad blynyddol |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Protocol ar y cyd yw hwn mewn cysylltiad â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Heddlu De Cymru. Tîm Cynllunio rhag Argyfyngau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot sy'n gyfrifol am gynnal y protocol. Dylid anfon manylion y newidiadau i'r cyfeiriad ar y dudalen flaen neu i ept@npt.gov.uk

# GWYBODAETH GYFFREDINOL

| LLEOLIAD | Côd Post | CYFEIRNOD GRID |
|---|---|---|
| Ochr y Gamlas, Aberdulais, Castell-nedd | SA10 8ET | SS 771 991<br>*/// with.shin.ruby* |

| | |
|---|---|
| **PWYNT RHEOLI AGOSAF AMLASIANTAETH POSIB ***<br>**TREFN REOLI EFYDD YR HEDDLU (Gweithredol)**<br>*gweler y map ar dudalen 5 am leoliadau* | I'w benderfynu gan ymatebwyr cyntaf ar adeg y digwyddiad ac yn seiliedig ar ddifrifoldeb y llifogydd/llifogydd a ragwelir.<br>[redacted] |

| | |
|---|---|
| **PWYNT CYFARFOD POSIB *** | [redacted] |

| | |
|---|---|
| **ARDAL GYNNULL BOSIB*** | [redacted] |

| | |
|---|---|
| **CANOLFANNAU GORFFWYS*** | [redacted] |

| | |
|---|---|
| **PWYNT CASGLU CLUDIANT I'R RHEINI SY'N CAEL EU GWACÁU:** | [redacted] |


| | |
|---|---|
| **CANOLFAN CYFRYNGAU** | [redacted] |


| | |
|---|---|
| **TREFN REOLI ARIAN AMLASIANTAETH**<br>**TREFN REOLI ARIAN YR HEDDLU (Tactegol)** | [redacted] |
| **DEWIS AMGEN** | [redacted] |

| | |
|---|---|
| **TREFN REOLI AUR AMLASIANTAETH**<br>**TREFN REOLI AUR YR HEDDLU (Strategol)** | [redacted] |
| **DEWIS AMGEN** | [redacted] |

* Dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r posibilrwydd o ddewis lleoliadau, a gall lleoliadau amrywio yn dibynnu ar y sefyllfa a'r canlyniadau a allai godi o ganlyniad i'r digwyddiad.

**Canal Side, Aberdulais, Neath**






**Official Sensitive**
**Emergency Planning**


Neath Port Talbot County Borough Council
Cygnor Bwrddeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Hywel Jenkins
Director of Finance & Corporate Services
The Quays, Brunel way, Baglan Energy Park,
Neath, SA11 2GG



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata
2020 Arolwg Ordnans 100023392.
© Crown copyright and database rights
2020 Ordnance Survey 100023392.


## Legend

- Evacuation Route
- Flood Routes
- The Royal British Legion Club
- Riverside Restaurant and Gold Range

[redacted]

| Sbardun: | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>[redacted]<br>(Swyddog Dyletswydd Rhybudd Llifogydd (SDRhLl) – Hwlffordd) | CBS Castell-nedd Port Talbot<br>[redacted]<br>Gofynnwch am gael siarad â Swyddog ar Ddyletswydd Cynllunio at Argyfwng CBSCNPT | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>[redacted] | Heddlu De Cymru<br>RhDH<br>[redacted] |
|---|---|---|---|---|
|  | **Cyhoeddi Rhybudd Llifogydd ar gyfer afon Nedd** - Mae llifogydd yn bosib. Byddwch yn barod | | | |
| | Y Swyddog Dyletswydd Digwyddiad Llifogydd **(SDDLl)** i gysylltu â'r Swyddog Dyletswydd Rhybudd Llifogydd **(SDRhLl)** i asesu'r rhagolygon tywydd/ystyried y tywydd. | Rhybudd Llifogydd ar gyfer afon Nedd yn cael ei dderbyn drwy Wasanaeth Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (testun, e-bost a ffôn).<br>Cofnodi yn y Llyfr Cofnodi Digwyddiadau a system DRAGON.<br>Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ystafell Achosion Llifogydd yn Hwlffordd drwy linell uniongyrchol. **Darparwch rif cyswllt perthnasol ar gyfer cyfathrebiadau pellach.** | Rhybudd Llifogydd ar gyfer afon Nedd yn cael ei dderbyn drwy Wasanaeth Rhybuddion Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (testun, e-bost a ffôn i'r Ystafell Rheoli Tân).<br>Neilltuir cyfeirnod digwyddiad ar ei gyfer.<br>Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ystafell Achosion Llifogydd yn Hwlffordd drwy linell uniongyrchol. **Darparwch rif cyswllt perthnasol ar gyfer cyfathrebiadau pellach.** | Yn derbyn Rhybuddion Llifogydd / Rhybuddion Llifogydd Difrifol yn unig. |
| **Rhagweld y sefyllfa <u>sy'n gwella</u> – h.y. lefelau'r afon yn sefydlog neu ni ddisgwylir iddynt gyrraedd y lefel nesaf** | | | | |
| | Dim gweithredu ar y safle. Swyddogion yn parhau i fonitro. | Dim camau gweithredu pellach, anfon manylion ymlaen at unrhyw swyddogion eraill a hysbyswyd am y Rhybudd o Lifogydd. | Anfonir manylion ymlaen er gwybodaeth swyddogion a gorsafoedd lleol. Dim cam gweithredu penodol arall ar hyn o bryd. | |
| **Rhagweld sefyllfa <u>sy'n gwaethygu</u> – h.y. lefelau'r afon yn debygol o gyrraedd lefel Rhybudd Llifogydd** | | | | |
| | **SDDLl** i ystyried:<br>• Anfon **Rheolwr Safle** (CNC) i Aberdulais i fonitro'r sefyllfa ac adrodd yn ôl i'r **SDRhLl**<br>• Cysylltu â **Swyddog Dyletswydd Cynllunio rhag Argyfyngau CNPT (SDCA)** drwy [redacted] i ddweud bod Rheolwr Safle CNC ar y safle ac yn darparu manylion.<br>• Cysylltu â **Swyddog Dyletswydd Priffyrdd CNPT** i ddweud bod Rheolwr Safle CNC ar y safle a darparu manylion cyswllt.<br>• Cysylltu â **Heddlu De Cymru (HDC)** a **Gwasanaeth Tân ac Achub CGC** i'w hysbysu os yw'r sefyllfa'n gwaethygu. | Derbyn hysbysiad bod Rheolwr Safle CNC wedi'i anfon i'r safle a bod posibilrwydd y paratoir ymateb gan CNC.<br>**SDCA** i sicrhau bod y **Swyddog Dyletswydd Priffyrdd** yn ymwybodol drwy deledu cylch cyfyng [redacted] | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub CGC yn ymateb i alwadau brys wrth iddynt ddigwydd ac yn dyrannu adnoddau yn ôl y gofyn, ac yn hysbysu asiantaethau eraill os bydd angen. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Anfon tîm i Aberdulais os rhagwelir tywydd garw – amserlen yn ymwneud â'r effaith ddisgwyliedig. | | | |
| **Sbardun:** | **Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>[redacted]<br>(SDRhLl y Dwyrain – Hwlffordd) | **CBS Castell-nedd Port Talbot**<br>[redacted]<br>Gofynnwch am gael siarad â Swyddog Dyletswydd Cynllunio rhag Argyfyngau (SDCA) CBSCNPT | **Gwasanaeth Tân ac Achub CGC**<br>[redacted] | **Heddlu De Cymru**<br>**Rheolwr Digwyddiadau'r Heddlu (RhDH)**<br>[redacted] |
|  | **Cyhoeddi Rhybudd Llifogydd ar gyfer afon Nedd yn Aberdulais** - Disgwylir llifogydd. Angen cymryd camau ar unwaith. | | | |
| | **SDDLl** i gysylltu â'r **SDDLl** i asesu cyflwr y tywydd.<br>Os bydd angen Ymateb Brys ar sefyllfa leol, e.e. rhagwelir rhwystrau coed, bydd y **SDDLl** yn anfon tîm gweithrediadau i'r safle.<br>**Rheolwr Safle (CNC)** i aros ar y safle a monitro hyd nes y ceir lefelau diogel - cysylltu â phersonél o asiantaethau partner eraill fel y bo'n briodol i roi diweddariadau. | Rhybudd Llifogydd ar gyfer Aberdulais yn cael ei dderbyn drwy Wasanaeth Rhybuddion Llifogydd CNC (testun, e-bost a ffôn).<br>Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ystafell Achosion Llifogydd yn Hwlffordd drwy linell uniongyrchol.<br>Gan ddibynnu ar yr wybodaeth a roddir gan **CNC**, bydd y **SDCA** yn gofyn am anfon **personél gweithredol Priffyrdd CNPT** i gysylltu â CNC ar y safle. | Rhybudd Llifogydd ar gyfer Aberdulais yn cael ei dderbyn drwy Wasanaeth Rhybuddion Llifogydd CNC (testun, e-bost a ffôn i'r Ystafell Rheoli Tân).<br>Neilltuir cyfeirnod digwyddiad ar ei gyfer. Anfonir manylion at swyddogion a gorsafoedd lleol.<br>Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ystafell Achosion Llifogydd yn Hwlffordd drwy linell uniongyrchol. | Rhybudd Llifogydd ar gyfer Aberdulais yn cael ei dderbyn drwy Wasanaeth Rhybuddion Llifogydd CNC (testun, e-bost a ffôn i'r RhDH). Neilltuir cyfeirnod digwyddiad ar ei gyfer. Anfonir manylion at swyddogion a gorsafoedd lleol.<br>**RhDH** i anfon **cynrychiolydd o'r Heddlu i'r safle** i gysylltu'n bersonol â **CNC** ar y safle.<br>**Hysbysu CBSCNPT** pan fydd swyddogion HDC ar y safle.<br>Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Ystafell Achosion Llifogydd yn Hwlffordd drwy linell uniongyrchol. |
| **Rhagweld sefyllfa sy'n gwaethygu – h.y. lefelau'r afon yn codi'n sylweddol uwch na lefel y Rhybudd Llifogydd. Posibilrwydd o gyrraedd y lefel nesaf e.e. Medryddion afon Pontneddfechan a Chil-ffriw yn parhau i godi.** | | | | |
| **HEDDLU'N SEFYDLU TREFN REOLI EFYDD AMLASIANTAETH AR Y SAFLE – PWYNT RHEOLI AGOSAF – lleoliad i'w benderfynu (gweler tudalennau 3+4 ar gyfer safleoedd posib). CNC, HDC, Gwasanaeth Tân ac Achub CGC a CBSCNPT yn bresennol.** | | | | |
| | Os ydynt ar gael, bagiau tywod i amddiffyn eiddo yn Ochr y Gamlas, Calor Gas a thafarn y Railway rhag | **Priffyrdd** (drwy'r Swyddog Priffyrdd ar y safle) i osod arwyddion ffordd a chonau traffig priodol yn:<br>• Ochr y Gamlas | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub CGC yn ymateb i alwadau brys wrth iddynt | **RhDH** i hysbysu **swyddogion/gorsafoedd HDC** perthnasol, **CNC** a **SDCA NPTCBC am y sefyllfa sy'n** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ffynonellau llifogydd lleol (o flaen a thu ôl i'r eiddo).<br>**Er gwybodaeth:** Mae'r eiddo isaf ar ben de-orllewinol Ochr y Gamlas (tŷ rhif 30)<br>Dweud wrth **y Pwynt Rheoli Agosaf** am y sefyllfa a ragwelir ar ôl cysylltu â Chanolfannau Ymateb Gweithredol Llifogydd yn ardal de Cymru.<br>**SDRhLl/SDDLl** i ddweud wrth **Swyddog Dyletswydd Cynllunio at Argyfwng NPTCBC, Gwasanaeth Tân ac Achub CGC a HDC am y sefyllfa sy'n gwaethygu.** | • Heol yr Orsaf<br>• Heol Dulais Fach/Heol Tonna Uchaf<br>• Cylchfan bach/slipffordd y B4434.<br>• Swyddog Priffyrdd ar y safle hefyd i hysbysu uwch-swyddog o'r sefyllfa<br>Bydd y **SDCA**, yn dilyn cyngor gan CNC/ Gwasanaeth Tân ac Achub CGC/HDC, yn sicrhau bod y canlynol wrth gefn:<br>• Deiliaid allweddi'r Ganolfan Orffwys a'r Gwasanaethau Cymdeithasol:<br>Canolfan Chwaraeon Castell-nedd/Canolfan Hamdden Cwm Nedd/Canolfan Hamdden Pontardawe<br>• Sefydliadau Gwirfoddol<br>• Cludiant i Deithwyr (contractwyr) | ddigwydd ac yn dyrannu adnoddau yn ôl y gofyn, a bydd yn hysbysu asiantaethau eraill os bydd angen.<br>**Hysbysu CBSCNPT** os yw swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub CGC ar y safle. | **gwaethygu.**<br>**Camau gweithredu HDC:**<br>• Rheoli'r Cyhoedd/Diogelwch.<br>• Aelodau o'r cyhoedd i gael eu gwahardd o'r ardal sy'n edrych dros afon Nedd yn y maes parcio/ardal lle mae'r gamlas yn tynnu dwr o'r afon.<br>• Rheoli traffig.<br>• Cysylltu â phreswylwyr Ochr y Gamlas |
| **Sbardun:** | **Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>[redacted]<br>(SDRhLl y Dwyrain – Hwlfford) | **CBS Castell-nedd Port Talbot**<br>[redacted]<br>Gofynnwch am gael siarad â Swyddog Dyletswydd Cynllunio rhag Argyfyngau (SDCA)CBSCNPT | **Gwasanaeth Tân ac Achub CGC**<br>[redacted] | **Heddlu De Cymru**<br>**RhDH**<br>[redacted] |
| | **Ystyried cyhoeddi Rhybudd Llifogydd Difrifol (amlasiantaeth)** | | | |
| | Y **SDRhLl** i gysylltu â'r **Rheolwr Safle (CNC)** mewn perthynas ag union lefelau a'r potensial am wireddu'r effaith ddifrifol.<br>Os bydd amser yn caniatáu, bydd y **RhTD** yn trafod â Swyddogion Dyletswydd o **HDC Gwasanaeth Tân ac Achub CGC** a **CBSCNPT** am oblygiadau cyhoeddi Rhybudd Llifogydd Difrifol a'r camau gweithredu i'w hystyried.<br>Os bydd lefelau'n codi'n gyflym i drothwy Rhybudd Llifogydd Difrifol gan atal trafodaeth amlasiantaeth, bydd y **RhTD** yn cyfarwyddo'r **SDRhLl** i gyhoeddi Rhybudd Llifogydd Difrifol. Yna dylai'r **RhTD** gysylltu â Swyddogion Dyletswydd o **HDC**, **Gwasanaeth Tân ac Achub CGC** a | **Swyddog Dyletswydd Priffyrdd** a'r **SDCA** i gymryd rhan mewn trafodaethau â CNC, **Gwasanaeth Tân ac Achub CGC** a **HDC** ynghylch cyhoeddi'r Rhybudd Llifogydd Difrifol, ac os oes angen – bydd y **SDCA** yn trefnu rhoi canolfan orffwys, gwasanaethau cymdeithasol a chludiant ar waith yn dilyn trafodaethau/penderfyniadau amlasiantaeth.<br>DS: gall darparu cludiant o ffynonellau awdurdod lleol fod yn fwy nag awr | Os oes angen, bydd **Gwasanaeth Tân ac Achub CGC** yn cymryd rhan mewn trafodaethau â **CNC, HDC** a **CBSCNPT** ynghylch cyhoeddi'r Rhybudd Llifogydd Difrifol.<br>Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub CGC yn ymateb i alwadau brys wrth iddynt ddigwydd ac yn dyrannu adnoddau yn ôl y gofyn, ac yn hysbysu asiantaethau eraill os bydd angen.<br>Hysbysu CBSCNPT os yw swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub CGC ar y safle. | **HDC** i gymryd rhan mewn trafodaethau a **CNC**, **Gwasanaeth Tân ac Achub CGC** a **CBSCNPT** ynghylch cyhoeddi'r Rhybudd Llifogydd Difrifol.<br>**Dweud wrth gynrychiolydd HDC** ar safle'r gwacád.<br>**Ystyried dweud wrth breswylwyr** am y sefyllfa a'r gwacáu posib yn dilyn trafodaethau/ penderfyniadau amlasiantaeth ar y cyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **CBSCNPT** ynghylch goblygiadau cyhoeddi Rhybudd Llifogydd Difrifol. | | | |
| | **Telegynadledda: Ystyriaethau amlasiantaeth - Paratoi'r ganolfan orffwys**<br>**Telegynadledda: Ystyriaethau amlasiantaeth - Gwacáu preswylwyr i'r ganolfan orffwys** | | | |
| | **Cyhoeddi Rhybudd Llifogydd Difrifol ar gyfer afon Nedd yn Aberdulais –** Llifogydd difrifol. Perygl i fywyd. | | | |
| | Rhaid i **bob asiantaeth** ystyried a ddylid datgan **digwyddiad mawr** ar gyfer eu hasiantaeth, ac os felly, hysbysu pob un o'r asiantaethau sy'n ymateb. | | | |
| | Gwacáu holl bersonél CNC o'r ardal lle mae'r gamlas yn tynnu dwr o'r afon, ac o'r tu ôl i waliau gerllaw afon Nedd a'r Clwb Cymdeithasol.<br>Cysylltu â'r person tywydd o ran cyflwr y tywydd a ragwelir a'r effaith ddisgwyliedig.<br>Rheoli sefyllfa leol o ardal ddiogel. | **Priffyrdd NPT** i aros ar y safle i roi cymorth i'r gwasanaethau brys/CNC, parhau i helpu i gau ffyrdd ac ati.<br>Staff y **Gwasanaethau Cymdeithasol** i fynd yno i reoli'r ganolfan orffwys. Os oes angen, trefnir ar gyfer arlwyo a thai brys hefyd.<br>**Cludiant** i gasglu pobl sy'n gadael y Pwynt Rheoli Agosaf a'u cludo i ganolfan orffwys. **SDCA** i barhau i fod ar gael os bydd problemau pellach/y sefyllfa'n gwaethygu. | Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub CGC yn ymateb i alwadau brys wrth iddynt ddigwydd ac yn dyrannu adnoddau yn ôl y gofyn, ac yn hysbysu asiantaethau eraill os bydd angen.<br>**Hysbysu CBSCNPT** os yw swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub CGC ar y safle. | **Y sefydliad mwyaf perthnasol fydd yn arwain ar y digwyddiad hwn. Bydd Comanderiaid yn penderfynu ar hyn yn y fan a'r lle.**<br>**Dechrau gwacáu** Ochr y Gamlas trwy orchymyn, gan ddechrau yn yr ardal is (yr ochr yn is ar yr afon, o dŷ rhif 30).<br>Sicrhau bod eiddo'n ddiogel, lle bo hynny'n bosib ac yn ddiogel gwneud hynny. |
| **Iechyd a diogelwch:** Ystyried diogelwch ymatebwyr **ar y cyd** – CNC i ddweud wrth ymatebwyr eraill os yw'r safle'n dod yn fwyfwy peryglus oherwydd llifogydd. Os yw'r safle wedi dod yn beryglus, rhaid i bersonél adael a mynd i'r **Pwynt Rheoli Agosaf** (cylchfan bach y B4434 , mynediad i'r A465). | | | | |
| **Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Yn ystod cyfnodau pan fydd llif yr afon yn uchel, gall Cwmni Camlas Tennant gyfyngu'r llif i'r gamlas drwy gau'r falfiau tynnu yn Ochr y Gamlas a hefyd agor golchfeydd i lawr yr afon i leihau lefelau yn y gamlas ei hun.<br>**Cyswllt ar gyfer Camlas Nedd a Thennant: Martyn Lyddon ar \| www.neath-tennant-canals.org.uk/**<br>Mae problemau wedi codi o'r blaen gyda charthffosydd yn gorlifo yn Ochr y Gamlas. Mae cyngor/gwybodaeth a chymorth ar gael gan Dŵr Cymru os bydd eu hangen drwy:<br>**Rhif Ffôn Brys DCWW:**<br>**Ystafell Reoli Cwmni DCWW:** | | | | |